Adran Gwaith
a Phensiynau

# Taliad Annibyniaeth Personol

## Mae gennym lawer o ffyrdd y gallwn gyfathrebu â chi

Os hoffech gael Braille, Iaith Arwyddion Prydain, ebyst, dolen glyw, cyfieithiadau, print bras, sain, neu rywbeth arall ffoniwch ni ar **0800 917 2222** neu ffôn testun **0800 917 7777** a dweud wrthym beth sydd ei angen arnoch.

Mae galwadau i rifau 0800 am ddim o linellau daear a ffonau symudol.

## Trin pobl yn deg

Rydym wedi ymrwymo i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac i drin pobl yn deg. I ddarganfod mwy am y gyfraith hon, chwiliwch am ‘Cydraddoldeb’ ar **www.gov.uk**

## Y ffurflen hon

**Dyma gam cyntaf y broses o wneud cais am Daliad Annibyniaeth Personol**

Dylai ceisiadau i Daliad Annibyniaeth Personol dim ond cael eu gwneud ar ffurflen wreiddiol a ddarparwyd a chymeradwywyd gan yr Adran. Mae rhaid i’r ffurflen hon gael ei llenwi ar gyfer y person y cafodd ei chyhoeddi ar ei gyfer. Ni chaiff copïau eu derbyn fel ceisiadau dilys.

**Sut i lenwi’r ffurflen**

Defnyddiwch ben ysgrifennu. Os gwnewch gamgymeriad, rhowch groes drwyddo. Peidiwch â defnyddio hylif cywiro. **Atebwch bob cwestiwn sy’n berthnasol i chi.**

### Rheolau Arbennig ar gyfer Diwedd Oes

Mae gennym reolau arbennig i bobl sy’n nesáu at ddiwedd oes. Mae hyn yn golygu pobl ag afiechyd cynyddol ac nad oes disgwyl iddynt fyw am fwy na 12 mis.

**01** A ydych am wneud cais o dan y rheolau arbennig ar gyfer pobl sy’n nesáu at ddiwedd oes?

☐ Na **Ewch i Chi**

☐ Ydw

Beth yw eich salwch?

[ ]

Sample - not for use

## Chi

Os ydych yn llenwi'r ffurflen hon ar ran rhywun arall, dywedwch wrthym amdanynt, nid amdanoch chi.

**02 Cyfenw neu enw teuluol, yn llawn**

**03 Pob enw arall, yn llawn**

**04 Eich teitl**

Er enghraifft, Mr, Mrs, Miss, Ms, neu arall.

**05 Rhowch yr enw rydych am i ni ei ddefnyddio wrth ysgrifennu atoch, os yw'n wahanol i'r uchod.**

Er enghraifft, os oes gennych deitl gwahanol, neu lythrennau ar ôl eich enw, fel Syr John Smith BSc.

**06 Cyfenw blaenorol**

Dywedwch wrthym am unrhyw gyfenw arall rydych wedi cael eich adnabod wrtho. Os ydych wedi cael mwy nag un cyfenw blaenorol, rhowch y cyfenw y gwnaethoch ei ddefnyddio ddiwethaf.

**07 Eich rhif Yswiriant Gwladol (YG) os oes gennych un**

Gallwch gael hyn oddi ar eich cerdyn rhif Yswiriant Gwladol, slipiau cyflog, neu lythyrau oddi wrth Adran Gwaith a Phensiynau.

**08 Eich dyddiad geni**

DD/MM/BBBB

/ /

**09 Rhyw**

☐ Gwryw

☐ Benyw

**10 Eich cyfeiriad, yn llawn**

Cod post

Os na allwn ysgrifennu atoch yn y cyfeiriad hwn, rhowch gyfeiriad y gallwn ysgrifennu ato.

**11 Cyfeiriad y gallwn ysgrifennu ato**

Cod post

Sample – not for use

## Sut i gysylltu â chi

**12** **Rhif ffôn y gallwn gysylltu â chi neu adael neges.**

Cofiwch gynnwys y cod deialu.

Os yw hwn yn rhif ffôn symudol efallai byddwn yn defnyddio'r rhif hwn i anfon negeseuon testun atoch i'ch diweddaru ar sut mae pethau'n symud ymlaen â'ch cais PIP.

**13** **A oes gennych rif arall y gallwn gysylltu â chi arno?**

- ☐ Na **Ewch i gwestiwn 14**
- ☐ Oes

Dywedwch wrthym am hyn

**14** **A oes gennych rhif ffôn testun?**

Nid yw ffonau testun yn derbyn negeseuon testun o ffonau symudol. Maent ar gyfer pobl na allant siarad na chlywed yn glir.

- ☐ Na **Ewch i gwestiwn 15**
- ☐ Oes

Dywedwch wrthym am hyn

**15** **Os ydych yn byw yng Nghymru, a ydych am i ni gyfathrebu â chi yn Gymraeg?**

- ☐ Na
- ☐ Ydw

**16** **Sut hoffech i ni gysylltu â chi?**

Ticiwch yr holl opsiynau ar gyfer sut yr hoffech i ni gysylltu â chi.

- ☐ Ffôn
- ☐ Llythyr
- ☐ Fformatau amgen eraill

Manylwch

**17** **A oes angen i ni gyfathrebu â chi mewn fformat arall?**

- ☐ Na

**Ewch i lofnodi'r ffurflen ar gyfer rhywun arall**

- ☐ Oes

Manylwch

Sample - not for use

## Llofnodi'r ffurflen ar ran rhywun arall

Gallwch lenwi'r ffurflen ar ran rhywun arall, ond mae'n rhaid iddynt llofnodi eu hunain oni bai:

- eich bod eisoes wedi cael eich penodi'n gyfreithiol i gael ac ymdrin â'i fudd-daliadau. Hynny yw, rydych yn benodai budd-dal, dirprwy neu'n meddu ar Atwrneiaeth,
- bod y person rydych yn gwneud cais ar ei ran yn rhy sâl neu'n anabl i wneud cais i'w hun ac rydych am gael eich penodi i gael ac ymdrin â'i fudd-daliadau, neu
- eich bod yn gwneud cais ar ei ran o dan y Rheolau Arbennig ar gyfer Diwedd Oes.

**18 A ydych yn llofnodi'r ffurflen ar ran rhywun arall?**

☐ Na **Ewch i Genedligrwydd**

☐ Ydw

**19 Pam rydych yn llofnodi'r ffurflen ar ei ran?**

☐ Rwy'n benodai, wedi fy mhenodi gan DWP

☐ Mae gennyf Atwrneiaeth

☐ Rwy'n ddirprwy

☐ Mae gennyf awdurdod i weithredu o dan Gyfraith yr Alban

Er enghraifft, Guardian.

☐ Rwy'n Gorff Corfforaethol Gweithredol neu'n Benodai Corfforaethol. Er enghraifft, sefydliad a benodwyd i weithredu ar ran y person y mae'r budd-dal ar ei gyfer fel awdurdod lleol neu gwmni cyfreithwyr.

Rhowch enw eich sefydliad.

Oni bai ein bod eisoes wedi gweld yr awdurdod hwn, bydd angen i ni ei weld cyn y gallwn brosesu'r cais hwn. Anfonwch eich atwrneiaeth neu unrhyw ddogfennau perthnasol eraill atom â'r cais hwn. Gallwch anfon y ddogfen wreiddiol, neu gopi wedi ei ardystio.

**20 A ydych eisiau cael eich penodi i weithredu ar ei ran?**

Gallai hyn fod oherwydd:

- bod y person rydych yn gwneud cais ar ei ran yn rhy sâl neu anabl i wneud cais i'w hun ac rydych am gael eich penodi i ymdrin â'i fudd-daliadau, neu
- rydych yn y broses o ddod yn gynrychiolydd a benodir yn gyfreithiol.

☐ Na

☐ Ydw

Byddwn yn cysylltu â chi ynglŷn â hyn.

**21 A ydych yn gwneud cais ar ei ran o dan y Rheolau Arbennig ar gyfer Diwedd Oes?**

Mae'r rheolau arbennig ar gyfer pobl sy'n nesáu at ddiwedd oes ar gyfer pobl sydd â chlefyd cynyddol na ddisgwylir iddynt fyw yn fwy na 12 mis. Efallai y byddwch am roi gwybod i'r person y mae'r budd-dal hwn ar ei gyfer am y cais hwn. Mae hyn oherwydd y byddwn yn anfon llythyrau am Daliad Annibyniaeth Personol at y person hwn.

☐ Na

☐ Ydw

Sample - not for use

## Os ydych yn llofnodi'r ffurflen ar ran rhywun arall, dywedwch wrthym am eich manylion chi yma

**22** **Cyfenw neu enw teuluol, yn llawn**

**23** **Pob enw arall, yn llawn**

**24** **Eich teitl**

Er enghraifft, Mr, Mrs, Miss, Ms, neu arall.

**25** **Rhowch yr enw rydych am i ni ei ddefnyddio wrth ysgrifennu atoch, os yw'n wahanol i'r uchod**

Er enghraifft, os oes gennych deitl gwahanol, neu lythyrau ar ôl eich enw, fel Syr John Smith BSc.

**26** **Eich cyfeiriad, yn llawn**

Cod post

Os na allwn ysgrifennu atoch yn y cyfeiriad hwn, rhowch gyfeiriad y gallwn ysgrifennu ato.

**27** **Cyfeiriad y gallwn ysgrifennu ato**

Cod post

Sample – not for use

## Sut i gysylltu â chi

Dylech lenwi'r adran hon dim ond os ydych yn llofnodi'r ffurflen ar ran rhywun arall.

**28 Rhif ffôn y gallwn gysylltu â chi arno neu adael neges**

Dylech gynnwys y cod deialu.

☐

Os yw hwn yn rhif ffôn symudol efallai byddwn yn defnyddio'r rhif hwn i anfon negeseuon testun atoch i'ch diweddaru ar sut mae pethau'n symud ymlaen â'r cais PIP.

**29 A oes gennych rif arall y gallwn gysylltu â chi arno?**

☐ Na **Ewch i gwestiwn 30**

☐ Oes

Dywedwch wrthym am hyn

**30 A oes gennych rif ffôn testun?**

Nid yw ffonau testun yn derbyn negeseuon testun o ffonau symudol. Maent ar gyfer pobl na allant siarad na chlywed yn glir.

☐ Na **Ewch i gwestiwn 31**

☐ Oes

Dywedwch wrthym am hyn

**31 Os ydych yn byw yng Nghymru, a ydych am i ni gyfathrebu â chi yn Gymraeg?**

☐ Na

☐ Ydw

**32 Sut hoffech i ni gysylltu â chi?**

Ticiwch bob opsiwn am sut hoffech i ni gysylltu â chi.

☐ Ffôn

☐ Llythyr

☐ Fformatau amgen eraill

Manylwch

**33 A oes angen arnoch i ni gyfathrebu â chi mewn fformat amgen?**

☐ Na **Ewch i Genedligrwydd**

☐ Oes

Manylwch

Sample - not for use

## Cenedligrwydd

Os ydych yn llenwi'r ffurflen hon ar ran rhywun arall, dywedwch wrthym **amdanynt**, nid amdanoch chi.

**34** **A ydych yn wladolyn Prydeinig?**

- ☐ Na
- ☐ Ydw **Ewch i gwestiwn 46**

**35** **A ydych yn wladolyn Gwyddelig?**

- ☐ Na
- ☐ Ydw **Ewch i gwestiwn 46**

**36** **Beth yw eich cenedligrwydd?**

☐

**37** **A ydych yn ddinesydd o'r Swistir neu'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE)?**

- ☐ Na **Ewch i gwestiwn 41**
- ☐ Ydw

**38** **A wnaethoch ddechrau byw yn y Deyrnas Unedig (DU) ar neu cyn 31 Rhagfyr 2020?**

- ☐ Na **Ewch i gwestiwn 41**
- ☐ Do

**39** **A ydych wedi gwneud cais i'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EUSS) neu a ydych wedi cael statws mewnfudo gan yr EUSS?**

- ☐ Na neu ddim yn gwybod. Mae rhaid i chi wneud cais yn syth. Am fwy o wybodaeth am sut i wneud cais i'r EUSS ewch i **www.gov.uk/eusettlementscheme** neu ffonio **0300 123 7379**

  **Ewch i gwestiwn 41**
- ☐ Ydw

**40** **Pa statws EUSS rydych wedi ei gael?**

- ☐ Statws sefydlog

  Er enghraifft, 'Hawl amhenodol i aros'.

  **Ewch i gwestiwn 46**
- ☐ Statws cyn-sefydlog

  Er enghraifft, 'Hawl gyfyngedig i aros'. Os ydych wedi byw yn y DU am 5 mlynedd mae rhaid i chi wneud cais i'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE i gael statws sefydlog. Os bydd eich statws cyn-sefydlog yn dod i ben, efallai bydd eich budd-dal yn stopio.

  **Ewch i gwestiwn 46**
- ☐ Cais yn aros

  Er enghraifft, rydych wedi gwneud cais i'r EUSS ond rydych yn aros am benderfyniad.

  **Ewch i gwestiwn 46**
- ☐ Gwrthodedig

  Er enghraifft, nid ydych wedi cael unrhyw statws.

  **Ewch i gwestiwn 43**

sample not for use

**41** **A ydych wedi cael statws ffoadur neu amddiffyniad dyngarol?**

☐ Ddim yn gwybod

☐ Na

☐ Ydw

**42** **A yw eich pasbort, neu unrhyw ddogfen arall o'r Swyddfa Gartref, yn nodi "No recourse to public funds"?**

Edrychwch ar y tudalennau yn eich pasbort a'r dogfennau o'r Swyddfa Gartref am y geiriau "No recourse to public funds".

☐ Ddim yn gwybod

☐ Na

☐ Ydw

**43** **Pa gyfyngiadau, os o gwbl, sydd ar eich caniatâd i aros?**

Mae 'caniatâd i aros' yn ganiatâd i aros yn y DU naill ai dros dro ('caniatâd cyfyngedig i aros') neu'n barhaol ('caniatâd amhenodol i aros').

☐ Dim cyfyngiadau
**Ewch i gwestiwn 46**

☐ Caniatâd cyfyngedig i aros
Mae hwn yn cynnwys statws cyn-sefydlog.
**Ewch i gwestiwn 44**

☐ Wedi gwneud cais am ganiatâd cyfyngedig i aros
**Ewch i gwestiwn 44**

☐ Caniatâd amhenodol i aros
Mae hyn yn cynnwys statws sefydlog.
**Ewch i gwestiwn 46**

☐ Dim caniatâd i aros
**Ewch i gwestiwn 46**

☐ Ddim yn gwybod
**Ewch i gwestiwn 46**

**44** **Pryd mae eich caniatâd i aros yn dod i ben?**

Os ydych wedi byw yn y DU am 5 mlynedd, mae rhaid i chi wneud cais i'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE eto i gael statws sefydlog. Efallai bydd eich budd-daliadau'n stopio os bydd eich statws cyn-sefydlog yn dod i ben.

DD/MM/BBBB

[    /    /    ]

**45** **Pryd gwnaethoch gais i ymestyn eich caniatâd i aros?**

Mae hyn yn cynnwys os oes gennych statws cyn-sefydlog ac rydych wedi gwneud cais i'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE am statws sefydlog.

Dylech ateb y cwestiwn hwn dim ond os ydych wedi gwneud cais i ymestyn eich caniatâd i aros.

DD/MM/BBBB

[    /    /    ]

Sample – not for use

## Byw a gweithio dramor

**46** **Ym mha wlad rydych yn byw fel arfer?**

**47** **A ydych wedi bod dramor am fwy na 4 wythnos ar y tro yn ystod y 3 blynedd diwethaf?**

Ystyr 'dramor' yw y tu allan i Brydain Fawr a Gogledd Iwerddon. Dylech gynnwys unrhyw wyliau a barodd am fwy na 4 wythnos.

☐ Na **Ewch i gwestiwn 49**

☐ Ydw

I ba wlad yr aethoch?

Pryd yr aethoch?

O

DD/MM/BBBB

/ /

I

DD/MM/BBBB

/ /

Pam yr aethoch?

Er enghraifft, gwyliau, gwaith, triniaeth feddygol, fel aelod o Luoedd EF, neu fel aelod o deulu rhywun sydd yn Lluoedd EF.

Pan aethoch, a oeddech yn bwriadu dychwelyd?

☐ Na

☐ Oeddwn

**48** **A oes unrhyw gyfnodau eraill dramor y dylech ddweud wrthym amdanynt?**

☐ Na

☐ Oes

Defnyddiwch y blwch yng Ngwybodaeth arall: **cwestiwn 91** i ddweud wrthym pryd yr aethoch, ble yr aethoch, ac a oeddech yn bwriadu dychwelyd.

**49** **A ydych chi, neu aelod o'ch teulu yn cael unrhyw bensiwn neu fudd-dal gan wlad arall sydd yn yr AEE neu'r Swistir?**

Mae 'aelod o'ch teulu' yn golygu gŵr, gwraig, partner sifil, neu riant rydych yn ddibynnol arno. Gwiriwch unrhyw lythyrau rydych wedi eu cael oddi wrth ble rydych yn gweithio neu gofynnwch i aelodau o'ch teulu am hyn.

☐ Ddim yn gwybod

☐ Na

☐ Ydym

**50** **A ydych chi, neu aelod o'ch teulu, yn gweithio mewn neu'n talu yswiriant i wlad sydd yn yr AEE neu'r Swistir?**

Mae 'aelod o'ch teulu' yn golygu gŵr, gwraig, partner sifil, neu riant rydych yn ddibynnol arno. Mae yswiriant yn golygu yswiriant sy'n gysylltiedig â'ch gwaith, fel Yswiriant Gwladol y DU. Nid ydym yn golygu yswiriannau fel yswiriant gwyliau, yswirant teithio, neu yswiriant modur.

☐ Ddim yn gwybod

☐ Na

☐ Ydym

sample - not for use

## Bod yn yr ysbyty, hosbis, gofal preswyl, neu ofal nyrsio

Os ydych mewn unrhyw un o'r llefydd canlynol pan fyddwch yn gwneud cais, gall effeithio ar pryd a beth y gallwn eich talu. Hyd yn oed os ydych yn byw mewn unrhyw un o'r llefydd canlynol dylech wneud cais am Daliad Annibyniaeth Personol o hyd. Yna gallwn benderfynu os gall unrhyw Daliad Annibyniaeth Personol gael ei dalu, ac o pa bryd.

### Bod yn yr ysbyty neu hosbis

**51 A ydych mewn ysbyty neu hosbis fel claf mewnol nawr?**

☐ Na

☐ Ydw **Ewch i gwestiwn 53**

**52 A ydych wedi bod mewn ysbyty neu hosbis yn y 4 wythnos diwethaf?**

☐ Na **Ewch i gwestiwn 56**

☐ Ydw

**53 Pryd yr aethoch i mewn?**

DD/MM/BBBB

/ /

**54 Os ydych yn yr ysbyty, a ydych yn glaf preifat sy'n talu eich holl gostau eich hun?**

☐ Ddim yn gwybod

☐ Na

☐ Ydw

**55 Rhowch enw a chyfeiriad llawn yr ysbyty neu hosbis**

Cod post

### Bod mewn gofal preswyl neu ofal nyrsio

**56 A ydych yn byw mewn cartref gofal, cartref nyrsio, tŷ gwarchod, coleg preswyl, neu hostel nawr?**

☐ Na

☐ Ydw **Ewch i gwestiwn 58**

**57 A ydych wedi bod mewn cartref gofal, cartref nyrsio, tŷ gwarchod, coleg preswyl, neu hostel yn ystod y 4 wythnos diwethaf?**

☐ Na Ewch i'r Prif weithiwr gofal iechyd proffesiynol sy'n eich cefnogi

☐ Ydw

**58 Pryd yr aethoch i mewn?**

DD/MM/BBBB

/ /

**59 Rhowch enw a chyfeiriad llawn y lle rydych yn aros**

Cod post

sample - not for use

**60** **A ydych yn talu'r holl gostau am aros yno heb help gan awdurdod lleol, awdurdod iechyd, awdurdod addysg, Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) nac elusen?**

- [ ] Ddim yn gwybod
  **Ewch i'r Prif weithiwr gofal iechyd proffesiynol sy'n eich cefnogi**
- [ ] Na
  **Ewch i gwestiwn 61**
- [ ] Ydw
  **Ewch i'r Prif weithiwr gofal iechyd proffesiynol sy'n eich cefnogi**

**61** **Pwy sy'n talu costau eich arhosiad?**
Ticiwch bob blwch perthnasol.

- [ ] Awdurdod lleol
  **Ewch i gwestiwn 62**
- [ ] Awdurdod iechyd
  **Ewch i gwestiwn 63**
- [ ] Awdurdod addysg
  **Ewch i gwestiwn 63**
- [ ] Elusen
  **Ewch i gwestiwn 63**
- [ ] DWP
  **Ewch i'r Prif weithiwr gofal iechyd proffesiynol sy'n eich cefnogi**

**62** **A oes gennych gytundeb â'r awdurdod lleol i ad-dalu unrhyw gostau?**

- [ ] Ddim yn gwybod
- [ ] Na
- [ ] Oes

**63** **Rhowch enw'r awdurdod lleol, awdurdod iechyd, awdurdod addysg neu'r elusen sy'n talu.**

[ ]

Sample - not for use

## Y prif weithiwr gofal iechyd proffesiynol sy'n eich cefnogi

Dywedwch wrthym am y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol a all roi'r wybodaeth orau i ni am eich cyflwr iechyd a sut mae'n effeithio arnoch. Er enghraifft:

- meddyg teulu
- meddyg ysbyty
- ymgynghorydd, neu
- nyrs arbenigol.

**64** **Beth yw ei swydd?**

**65** **Beth yw ei enw?**

**66** **Cyfeiriad**

Er enghraifft, cyfeiriad y ganolfan iechyd, meddygfa, neu'r ysbyty lle mae'n gweithio.

Cod post

**67** **Rhif ffôn**

Cofiwch gynnwys y cod deialu.

## Gweithiwr gofal iechyd neu ofal cymdeithasol proffesiynol arall sy'n eich cefnogi

Dywedwch wrthym os oes gweithiwr gofal iechyd neu ofal cymdeithasol proffesiynol arall neu rywun arall y gallwn gysylltu â hwy a all ddweud wrthym am eich salwch. Er enghraifft:

- nyrs seiciatrig gymunedol
- therapydd galwedigaethol
- ffisiotherapydd
- gweithiwr cymorth
- gweithiwr cymdeithasol
- cynghorydd
- gofalwr
- aelod o'r teulu, neu
- ffrind.

**68** **A oes rhywun y gallwn gysylltu â hwy i ddweud wrthym am eich cyflwr iechyd neu anabledd?**

☐ Na **Ewch i Ganiatâd**

☐ Oes

**69** **Beth yw ei swydd?**

**70** **Beth yw ei enw?**

**71** **Cyfeiriad**

Er enghraifft, cyfeiriad y ganolfan iechyd, meddygfa, neu'r ysbyty lle mae'n gweithio.

Cod post

**72** **Rhif ffôn**

Cofiwch gynnwys y cod deialu.

Sample – not for use

## Caniatâd

Rhannu gwybodaeth am eich cyflwr iechyd.

Efallai bydd ar Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) neu weithwyr gofal iechyd proffesiynol cymeradwy sy'n gweithio i DWP angen mwy o wybodaeth am eich cyflwr iechyd neu anabledd a sut mae'n effeithio arnoch.

Efallai byddant yn gofyn, â'ch caniatâd, am wybodaeth berthnasol gan eich meddyg, neu unrhyw weithiwr proffesiynol perthnasol arall y dywedwch wrthynt amdano. Gall DWP ofyn yn gyfreithlon i'ch meddyg, ymgynghorydd ysbyty neu weithwyr proffesiynol perthnasol eraill am wybodaeth am eich cyflwr iechyd a sut mae'n effeithio arnoch. Mae hyn oherwydd ein bod yn gofyn am y wybodaeth i'n helpu i gyflawni ein swyddogaethau nawdd cymdeithasol swyddogol.

Nid oes rhaid i chi roi eich caniatâd. Os na wnewch, bydd DWP yn gwneud penderfyniad yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ganddi eisoes, yn ogystal ag unrhyw wybodaeth y byddwch yn ei rhoi i DWP eich hun.

### Os byddwch yn newid eich meddwl

Gallwch newid eich meddwl. Gallwch wneud hyn drwy gysylltu â **0800 121 4433** a dweud eich bod am roi neu dynnu eich caniatâd.

Os byddwch yn tynnu eich caniatâd, ni all DWP gael gwybodaeth gan eich meddyg neu eraill a enwir ar y ffurflen.

**73 A ydych yn rhoi caniatâd i'ch meddyg neu weithwyr proffesiynol perthnasol eraill roi mwy o wybodaeth i DWP am eich cyflwr iechyd neu anabledd?**

- ☐ Na, ni ellir rhannu gwybodaeth am fy nghyflwr iechyd neu anabledd ag Adran Gwaith a Phensiynau na'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n gweithio iddi.
- ☐ Ydw, gellir rhannu gwybodaeth am fy nghyflwr iechyd neu anabledd ag Adran Gwaith a Phensiynau neu'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n gweithio iddi.

**74 Rwyf wedi darllen a deall sut mae DWP yn defnyddio gwybodaeth**

Eich llofnod

Dyddiad

DD/MM/BBBB

/ /

Sample - not for use

## Sut y byddwn yn eich talu

Rydym yn gofyn am fanylion eich cyfrif cyn i ni benderfynu ar gais fel y gallwn eich talu ar unwaith os byddwch yn gymwys i gael budd-dal. Nid yw hyn yn gwarantu y byddwch yn cael Taliad Annibyniaeth Personol.

**Mae rhaid i chi ddarllen y wybodaeth yn y llythyr a gawsoch â'r ffurflen hon cyn i chi lenwi manylion y cyfrif.**

### Rhowch fanylion y cyfrif isod.

Mae'n bwysig iawn eich bod yn llenwi pob blwch yn gywir, gan gynnwys rhif rôl neu rif cyfeirnod y gymdeithas adeiladu, os oes gennych un. Os byddwch yn rhoi'r manylion cyfrif anghywir i ni efallai y bydd oedi cyn i chi gael eich taliad neu gallech golli arian.

Gallwch ddod o hyd i fanylion eich cyfrif ar eich llyfr siec neu ar eich cyfriflenni banc. Os nad ydych yn siŵr am fanylion y cyfrif, gofynnwch i'r banc neu'r gymdeithas adeiladu.

**75 Enw deiliad y cyfrif**

Rhowch enw deiliad y cyfrif yn union fel y mae'n ymddangos ar y cerdyn debyd, llyfr siec, neu'r gyfriflen.

[ ]

**76 Enw'r banc neu gymdeithas adeiladu**

[ ]

**77 Cod didoli**

Rhowch y 6 rhif i ni, er enghraifft 12 34 56.

[ ][ ] – [ ][ ] – [ ][ ]

**78 Rhif y cyfrif**

Mae'r rhan fwyaf o rifau cyfrif yn cynnwys 8 rhif. Os yw rhif eich cyfrif yn cynnwys llai na 10 rhif, llenwch y rhifau o'r chwith.

[ ][ ][ ][ ][ ][ ][ ][ ][ ][ ]

**79 Rhif rôl neu rif cyfeirnod y gymdeithas adeiladu**

Os ydych yn defnyddio cyfrif cymdeithas adeiladu efallai bydd rhaid i chi roi rhif rôl neu gyfeirnod i ni. Gall hwn fod yn gymysgedd o lythrennau a rhifau a gall fod hyd at 18 o gymeriadau o hyd. Os nad ydych yn siŵr a oes gan y cyfrif rif rôl neu rif cyfeirnod, gofynnwch i'r gymdeithas adeiladu.

[ ][ ][ ][ ][ ][ ][ ][ ][ ][ ][ ][ ][ ][ ][ ][ ][ ][ ]

Sample - not for use

## Rheolau Arbennig ar gyfer Diwedd Oes

Dylech ateb **cwestiynau 80 i 84** dim ond os ydych yn gwneud cais o dan y Rheolau Arbennig ar gyfer Diwedd Oes.

Efallai gallwch gael elfen symudedd Taliad Annibyniaeth Personol os ydych yn cael anhawster wrth symud neu os oes angen help arnoch i symud o gwmpas.

Mae'n bwysig eich bod yn anfon ffurflen SR1 atom i ategu eich cais os nad ydych wedi anfon un am eich cais am PIP neu unrhyw fudd-dal arall yn ystod y 12 mis diwethaf.

Mae'r SR1 yn adroddiad am eich cyflwr meddygol. Ni fydd rhaid i chi dalu amdano. Gallwch ofyn i dderbynnydd y meddyg, nyrs, neu weithiwr cymdeithasol ei drefnu i chi. Nid oes rhaid i chi weld y meddyg. Gall eich meddyg neu arbenigwr ei anfon atom ar eich cyfer.

**80** **A ydych am anfon SR1 atom i ategu eich cais?**

☐ Ddim yn gwybod

☐ Na

☐ Ydw

Peidiwch ag aros nes bod gennych yr SR1. Parhewch â'ch cais. Bydd yn ddefnyddiol os dychwelwch yr SR1 atom o fewn y 5 niwrnod nesaf.

### Symud o gwmpas

**81** **A oes angen rhywun arall arnoch i gynllunio unrhyw daith rydych am ei gwneud?**

☐ Na

☐ Weithiau

☐ Oes

**82** **A ydych yn cael anhawster wrth ddilyn llwybr taith gyfarwydd?**

Er enghraifft, a oes angen y canlynol arnoch?

- rhywun arall gyda chi
- ci cymorth, neu
- cymhorthion, fel ffon wen?

☐ Na

☐ Weithiau

☐ Ydw

**83** **A ydych yn cael anhawster wrth gerdded pellteroedd byr hyd at 50 metr?**

Mae hyn tua hyd 5 bws.

☐ Na

☐ Weithiau

☐ Ydw

**84** **A ydych yn cael anhawster wrth gerdded pellteroedd byr hyd at 50 metr?**

Mae hyn tua hyd 2 fws.

☐ Na

☐ Weithiau

☐ Yes

Efallai byddwn yn cysylltu â'r gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol rydych wedi dweud wrthym amdano i gael mwy o wybodaeth am eich cais.

<u>**Ewch i Gynllun Motability.**</u>

Sample - not for use

## Y cam nesaf o wneud cais

**Os nad ydych wedi gwneud cais o dan y Rheolau Arbennig ar gyfer pobl sy'n nesáu at ddiwedd oes.**

Bydd y cam nesaf o wneud cais am Daliad Annibyniaeth Personol yn dechrau pan fyddwn yn anfon ffurflen arall atoch drwy'r post fel y gallwch ddweud wrthym sut mae eich cyflwr yn effeithio arnoch. Bydd angen i chi lenwi'r ffurflen a'i hanfon yn ôl atom.

Os credwch y bydd angen help neu gymorth arnoch i lenwi'r ffurflen, cysylltwch â sefydliad cymorth lleol cyn gynted â phosibl er mwyn trefnu help.

**85** **A ydych yn llofnodi'r ffurflen hon i chi'ch hun?**

☐ Na

**Ewch i Lwfans Byw i'r Anabl (DLA)**

☐ Ydw

**86** **A fyddai arnoch angen rhywun i'ch helpu i lenwi a deall llythyrau fel arfer?**

☐ Na **Ewch i gwestiwn 87**

☐ Byddai

Pwy byddwch yn gofyn iddynt i'ch helpu?

Er enghraifft:

- aelod o'r teulu
- ffrind
- cymydog
- gweithiwr cymorth, neu
- sefydliad cymorth lleol fel Cyngor ar Bopeth a sefydliadau cyngor tebyg eraill.

[ ]

Gofynnwch iddynt eich helpu i lenwi'r ffurflen cyn gynted â phosibl.

**87** **A ydych yn cael anhawster wrth gyfathrebu â ni?**

Gallai hyn fod yn bethau fel anfon gwybodaeth atom neu ddeall gwybodaeth y byddwn yn ei hanfon atoch, oherwydd eich cyflwr iechyd neu anabledd.

Er enghraifft, efallai bod gennych cyflwr fel:

- cyflwr iechyd meddwl
- cyflwr ymddygiadol
- anabledd dysgu
- anhwylder datblygu, neu
- dementia neu gyflyrau eraill sy'n effeithio ar y cof.

☐ Na

Os bydd eich anghenion yn newid, gallwch roi gwybod i ni ar unrhyw bryd.

☐ Ydw

Sample – not for use

## Lwfans Byw i'r Anabl (DLA)

**88** **A ydych yn cael DLA, neu a ydych wedi cael dyfarniad o DLA erioed?**

☐ Na **Ewch i Gynllun Motability**

☐ Ydw

Mae PIP yn fudd-dal newydd i chi, a byddwn yn gofyn i chi anfon unrhyw wybodaeth ategol atom am sut mae eich cyflwr yn effeithio arnoch.

**89** **A hoffech i ni ddefnyddio unrhyw dystiolaeth feddygol sydd gennym o'ch cais blaenorol am DLA?**

Gallai'r dystiolaeth hon fod o adroddiad gan:

- meddyg teulu
- ysbyty
- ysgol, neu
- gweithwyr gofal iechyd neu ofal cymdeithasol proffesiynol eraill.

Os ydych wedi cael archwiliad meddygol am DLA gallem ddefnyddio'r adroddiad gan yr ymarferydd archwlio meddygol (EMP). Os cafodd adroddiad Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ei ddefnyddio i gefnogi eich cais am DLA gallem ddefnyddio'r adroddiad hwn.

☐ Na

Byddwn yn defnyddio dim ond y wybodaeth byddwch yn ei hanfon atom gyda'ch ffurflen i'n helpu i wneud ein penderfyniad. Os oes gennym dystiolaeth feddygol o DLA, gallai hynny gael ei defnyddio yn y dyfodol yn ystod eich cais.

☐ Hoffwn

Byddwn yn cael eich cofnod DLA a sicrhau bod unrhyw dystiolaeth feddygol sydd gennym o hyd yn cael ei hystyried.

## Cynllun Motability

Mae Cynllun Motability yn caniatáu i bobl anabl logi car, sgwter, neu gadair olwyn â phŵer yn gyfnewid am ryw faint neu eu holl daliadau symudedd.

**90** **Os ydych yn gymwys i ymuno â Chynllun Motability, a hoffech i ni anfon gwybodaeth atoch am yr help y gallant ei gynnig i chi?**

Ni fyddwn yn rhannu eich manylion personol â Motability?

☐ Na

☐ Ydw

Os byddwch yn penderfynu na fyddwch am gael gwybodaeth am Motability yn y dyfodol, cysylltwch â ni ar **0800 121 4433** er mwyn rhoi gwybod i ni.

Sample - not for use

## Gwybodaeth arall

**91** **Defnyddiwch y blwch hwn i ddweud wrthym am unrhyw beth arall rydych yn meddwl gallai fod angen i ni wybod amdano.**

Os nad oes digon o le, defnyddiwch ddalen o bapur ar wahân. Sicrhewch eich bod yn:

- rhoi eich enw llawn a rhif Yswiriant Gwladol ar bob dalen o bapur, ac
- llofnodi a dyddio pob dalen rydych yn ei defnyddio.

Sample - not for use

## Beth i'w wneud nawr

Sicrhewch eich bod wedi ateb pob cwestiwn sy'n berthnasol i chi.

Darllenwch y wybodaeth gwnaethom ei hanfon gyda'r ffurflen hon. Mae'n dweud wrthych sut rydym yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth a ble i fynd am help a chyngor am y budd-dal hwn a budd-daliadau eraill.

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi llofnodi'r adran caniatâd ar tudalen 13.

Nawr darllenwch a llofnodwch y **Datganiad**.

## Datganiad

Ni allwn dalu unrhyw fudd-dal nes y byddwch wedi llofnodi'r datganiad a dychwelyd y ffurflen atom. Dychwelwch y ffurflen wedi ei llofnodi ar unwaith.

Trwy lofnodi'r datganiad hwn, rydych yn cytuno:
- bod y wybodaeth rydych wedi ei rhoi yn gywir ac yn gyflawn
- i ddweud wrthym am newidiadau i'ch amgylchiadau ar unwaith.

Os yw'r wybodaeth rydych yn ei rhoi i ni yn anghywir neu'n anghywir, neu nad ydych yn dweud wrthym am newidiadau ar unwaith:
- efallai y byddwn yn stopio neu'n lleihau eich Taliad Annibyniaeth Personol
- efallai y cewch ormod o Daliad Annibyniaeth Personol a bydd rhaid i chi dalu hwn yn ôl
- efallai y bydd rhaid i chi dalu cosb ariannol
- efallai y byddwn yn eich erlyn.

**92** **Dyma fy nghais am Daliad Annibyniaeth Personol**

Llofnod

[ ]

Dyddiad

DD/MM/BBBB

[ / / ]

## Beth fydd yn digwydd nesaf

Os anfonir y ffurflen gais Sut mae eich anabledd yn effeithio arnoch, bydd angen i chi lenwi'r ffurflen a'i dychwelyd gyda chopïau o wybodaeth ategol sy'n esbonio sut mae eich cyflwr iechyd neu anabledd yn effeithio arnoch wrth gyflawni gweithgareddau o ddydd i ddydd.

Mae gwybodaeth ategol yn golygu pethau fel:
- cynlluniau gofal cymdeithasol
- adroddiadau gan weithwyr iechyd proffesiynol
- rhestrau presgripsiwn
- canlyniadau profion
- datganiadau gan ofalwyr neu aelodau o'r teulu.

**Anfonwch gopïau yn unig, dim y rhai gwreiddiol.**

Bydd y dyddiad i ddychwelyd popeth erbyn ef yn cael ei argraffu ar flaen y ffurflen **Sut mae eich anabledd yn effeithio arnoch**.

Trefnwch unrhyw help sydd ei angen arnoch i gwblhau'r ffurflen neu casglwch eich gwybodaeth ategol nawr, oherwydd efallai y byddwn yn dod â'ch cais i ben os na chaiff ei ddychwelyd mewn pryd.

Sample - not for use

## Dychwelyd y ffurflen wedi ei chwblhau

Anfonwch y ffurflen wedi ei chwblhau i'r cyfeiriad hwn:
**Freepost RTEU-HBEC-RGTG**
**Personal Independence Payment 1**
**Mail Handling Site A**
**Wolverhampton**
**WV98 1AA**

Rhowch y ffurflen wedi ei chwblhau yn yr amlen a ddarparwyd, gan sicrhau bod y cyfeiriad yn dangos trwy ffenestr yr amlen. Nid oes angen stamp ar yr amlen oni bai eich bod yn byw y tu allan i'r Deyrnas Unedig.

Os oes gennych fynediad i'r rhyngrwyd, gallwch gael gwybodaeth am Daliad Annibyniaeth Personol drwy fynd i wefan Taliad Annibyniaeth Personol ar
**www.gov.uk/taliad-annibyniaeth-personol-pip**

## Sut mae Adran Gwaith a Phensiynau yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth

Pan fyddwn yn casglu gwybodaeth amdanoch efallai y byddwn yn ei defnyddio at unrhyw un o'n dibenion. Mae'r rhain yn cynnwys:

- budd-daliadau a lwfansau nawdd cymdeithasol
- cynhaliaeth plant
- cyflogaeth a hyfforddiant
- ymchwilio ac erlyn troseddau credydau treth
- polisi pensiynau preifat, a
- cynllunio ar gyfer ymddeoliad.

Efallai byddwn yn cael gwybodaeth amdanoch gan bartïon eraill at unrhyw un o'n dibenion fel y mae'r gyfraith yn caniatáu i wirio'r wybodaeth byddwch yn ei darparu a gwella ein gwasanaethau. Efallai byddwn yn rhoi gwybodaeth amdanoch i sefydliadau eraill fel y mae'r gyfraith yn caniatáu, er enghraifft i amddiffyn rhag trosedd. I gael gwybod mwy am ein dibenion, sut rydym yn defnyddio gwybodaeth bersonol at y dibenion hynny, a'ch hawliau gwybodaeth, gan gynnwys sut i ofyn am gopi o'ch gwybodaeth, ewch i
**www.gov.uk/dwp/siarter-gwybodaeth-bersonol**

## Rhestr wirio

**I wneud yn siŵr bod gennym yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnom i brosesu'r ffurflen hon, gwiriwch:**

- ☐ bod y tudalen caniatâd wedi ei gwblhau ar dudalen 13
- ☐ bod y person sydd wedi cwblhau'r ffurflen wedi llofnodi'r datganiad ar dudalen 19

Sample - not for use